# Local Development Plan 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Ebrill 2026

# Archwiliad CDLl Newydd Caerdydd

## Datganiad o Dir Cyffredin rhwng Cyngor Caerdydd a Breedon Trading Limited



www.cdllcaerdydd.co.uk 02920 872088
CDLl@caerdydd.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

## Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd

## Datganiad o Dir Cyffredin

1.1 Paratowyd y datganiad canlynol rhwng Cyngor Caerdydd a Breedon Trading Limited (46).

## Materion a gytunwyd

1.2 Gwnaeth Breedon Trading Limited sylwadau ar Gynllun Adneuo’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn gwrthwynebu dyrannu safle ardal adfywio dan arweiniad tai H2.4 yn Noc y Rhath (Ochr y Gogledd) gan nodi bod y cynnig i sefydlu tai dwysedd uchel yn union ger glanfa weithredol yn anghydnaws oherwydd y potensial ar gyfer llwch, sŵn, symudiadau Cerbydau Nwyddau Trwm a goleuadau dwysedd uchel. Mae Breedon Trading Limited hefyd yn nodi nad yw'r dyraniad yn cyd-fynd â Pholisi MW6: Ardaloedd Gwarchod Angorfeydd Tywod a byddai'n debygol o gyfaddawdu ar weithrediad glanfa dywod y Cwmni. O ystyried diffyg lleoliadau amgen addas yn ardal Caerdydd, byddai hyn yn tarfu'n sylweddol ar y cyflenwad o dywod i ardal Caerdydd ehangach, gan y byddai angen ffynonellau cyflenwi amgen o ymhellach i ffwrdd a'u cludo ar hyd ffyrdd. (Sylw 46.01) .

1.3 Am y rhesymau a nodir uchod, mae'r Cyngor yn cytuno â Breedon Trading Limited y dylid dileu'r dyraniad hwn o'r cynllun, a chynigir bod polisi H2: Ardaloedd Adfywio dan Arweiniad Tai yn cael ei ddiwygio a dyraniad H2.4 Doc y Rhath (Ochr y Gogledd) yn cael ei ddileu o'r polisi a'i ddileu o'r Map Cynigion (gweler Atodiad 1). Cynigir bod y newidiadau hyn yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC) sydd ar ddod.

1.4 Nid yw'r Cyngor o'r farn y bydd dileu'r dyraniad hwn a'r amcangyfrif o 316 o anheddau yn effeithio'n sylweddol ar y strategaeth dai a nodir yn y cynllun o ystyried bod Tabl 11: Crynodeb o'r Cyflenwad Tir Tai yn y Papur Technegol Cefndir Rhif 1 Tai yn dangos digon o gapasiti tai yn ystod y cynllun heb gynnwys y dyraniad hwn.


**23 Ebrill 2026**

**Cyngor Caerdydd** Stuart Williams

**Breedon Trading Limited**

**Atodiad 1**

## Ffin dyraniadau H2.4 ar Fap Cynigion y Cynllun Adneuo



**Ffin Ddiwygiedig Arfaethedig ar y Map Cynigion gyda H2.4 wedi'i ddileu.**

